

CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH

Llun / Photo: Environment Agency Wales

**Llygoden bengron y dŵr***Arvicola terrestris***Disgrifiad / Ecoleg**


Mae llygoden bengron y dŵr wedi dioddef dirywiad trychinebus ar draws y DU dros y 15 mlynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith ei bod wedi colli ei chynefin a bod y minc Americanaidd wedi bod yn ei hysglifo. Weithiau, bydd llygod pengron y dŵr yn cael eu camgymryd am lygod mawr brown, ond maent yn llai, mae eu cyrff yn fwy crwn ac mae ganddynt glustiau byr, trwynau di-flaen, cynffonau blewog a ffwr o liw cochaidd-brown. Mae llygod pengron y dŵr yn lled-ddyfrol ac maent yn gallu byw mewn afonydd, nentydd, ffosydd, camlesi, llynnoedd a phyllau. Maent yn ffafrio cyrsiau dŵr sy'n llofo'n araf gyda chloddiau serth, meddal sy'n addas er mwyn tycru. Yn ddelfrydol, dylai o leiaf 60% o'r hyn sy'n tyfu ar y clawdd fod yn blanhigion tal, moethus. Mae gwlypdiroedd sy'n cynnwys twmpathau o borfa, brwyn, cyrs neu hesg yn cynnig cynefin i llygoden pengron y dŵr hefyd. Nid ydynt mor hoff o safleoedd dan gysgod llwyni neu goed.

Dosbarthiad yng Ngheredigion

Y cadarnleoedd presennol yw'r ffosydd yng Nghors Caron (Tregaron) a gerllaw Cors Caron, yn ardal Clarach ac ym mlaenddyfroedd afonydd Aeron/Arth/Wyre ar lwyfandir Blaenpennal/Pen-uwch. Ceir poblogaethau ar wahân mewn ffosydd yn Llanbadarn, yn afon Dulas ger Llangybi ac ym mynyddoedd Cambria ar y cyd â'r blaenddyfroedd a'r llynnoedd yn rhan uchaf afonydd Teifi, Rheidol ac Ystwyth lle mae'r poblogaethau yn dameidiog iawn, felly maent yn agored i gael eu colli yn lleol.

Ffactorau sy'n cyfrannu at y dirywiad yng Ngheredigion

- Da byw yn gorbori a sathru ar gynefinoedd.
- Datblygu, gwaith ansensitif i ddiogelu cloddiau, sianel a charthu.
- Diffyg gwaith i gynnal a chadw ffosydd yn arwain at ffosydd yn sychu neu brysgrwydd yn ennill tir.
- Ysglyfio gan y minc Americanaidd. Mae'n hysbys bod minc yn bresennol ledled Ceredigion.

SPECIES ACTION PLAN**Water vole***Arvicola terrestris***Description / Ecology**

The water vole has suffered a catastrophic decline across the UK over the last 15 years, chiefly due to habitat loss and predation by American mink. Sometimes mistaken for brown rats, water voles are smaller with a more rounded body, short ears, blunt noses, furred tail and reddish-brown fur. Water voles are semi-aquatic and can inhabit rivers, streams, ditches, canals, lakes and ponds. They favour slow flowing watercourses with steep, soft banks suitable for burrowing. Ideally, at least 60% of the bank-side cover should consist of tall, luxurious plant growth. Wetlands with tussocks of grass, rush, reed or sedge also offer habitat for water voles. Sites shaded by shrubs or trees are less favoured.

Distribution in Ceredigion

The current strongholds are the ditches in and around Cors Caron (Tregaron), in the Clarach area and in the Aeron/Arth/Wyre headwaters on the Blaenpennal/Penwch plateau. There are isolated populations on ditches in Llanbadarn, on the Dulas near Llangybi and in the Cambrian mountains in association with the headwater and lakes of the upper Teifi, Rheidol and Ystwyth rivers which are highly fragmented and therefore vulnerable to localised extinction.

Factors contributing to decline in Ceredigion

- Overgrazing and trampling of bank-side habitat by livestock.
- Development, insensitive bank protection works, culverting and dredging.
- Lack of ditch maintenance leading to drying-up or scrub encroachment.
- Predation by American mink. Mink are known to be present throughout Ceredigion.
- Pollution of watercourses and rodenticide poisoning are also potential threats.

- Mae llygredd mewn cyrsiau dŵr a gwenwyno gan wenwyn llygod yn gyfyngiadau posibl hefyd.

Beth sy'n cael ei wneud yn lleol?

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAU) yn cynnal arolygon ar hyd ardal ucheldir Ceredigion ac mae wedi bod yn arolygu afon Dulas eto yn ddiweddar. Mae EAU yn gwneud gwaith i reoli cyrsiau dŵr, a gwella cynefinoedd yng Nghilarach a Dulas ac ar y cyd â CSC ym Mharc y Llyn yn Llanbadarn. Mae gweithrediadau EAU yn yr holl safleoedd sy'n cynnal llygod pengron y dŵr yn cael eu gwneud yn unol ag asesiad effaith amgylcheddol. Cynhelir arolygiadau a gwneir gwaith monitro hefyd mewn ymateb i bwysau datblygu, gweithrediadau ayb.

Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De & Gorllewin Cymru yn monitro a rheoli llygod pengron ar rai o'r gwarchodfeydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith o reoli llygod pengron y dŵr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron. Mae cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol (e.e Tir Gofal) yn cynnig cyfleoedd i wella cynefin llygoden bengron y dŵr.

Targedau

- Gwella data dosbarthiad a'r boblogaeth sylfaenol.
- Cynnal dosbarthiad ac chyflenwad poblogaethau presennol llygod pengron y dŵr yng Ngheredigion
- Ehangu poblogaethau presennol trwy reoli cyrsiau dŵr a gwlypdiroedd mewn ffordd ffafriol.

Yr hyn y gallwch ei wneud i helpu

Os byddwch yn gweld unrhyw llygod pengron y dŵr neu os hoffech gael cyngor yngylch rheoli cynefin mewn ffordd briodol, cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (01792 325624). Yn ogystal, gellir anfon cofnodion at y cofnodwr mamaliaid, tommo@ceredigion.gov.uk. Dylech sicrhau bod gennych gyfeirnod grid – 6 ffigwr os oes modd.

Gwybodaeth bellach

- Tabl camau gweithredu (rhan 2 cynllun gweithredu Llygoden bengron y dŵr) am fanylion yngylch camau gweithredu lleol.
- Cynllun Gweithredu Llygoden Bengron y dŵr y DU (ar gael ar www.ukbap.org.uk)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar www.ceredigion.gov.uk)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain Arfordir a Chefn Gwlad, Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA saraха@ceredigion.gov.uk Tel 01545 570881

Prif Bartner: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Maes Newydd, Llandarsi, Castell-nedd Port Talbot SA10 6JQ. Ffôn. 01792 325624.

Dyddiad y cynllun a diwedddariadau: M Jenkins, EAW 2005 & H Foster, EAW 2006

Cysylltiadau â chynlluniau eraill: Mae'r trefniadau rheoli ar gyfer rhai mathau eraill o rywogaethau a chynefinoedd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n briodol ar gyfer llygoden bengron y dŵr e.e. dyfrgwn, porfeydd rhos.

What is being done locally?

Environment Agency Wales (EAU) are surveying upland Ceredigion and have recently re-surveyed the Dulas. Watercourse management and habitat enhancement projects are being undertaken by EAU at Clarach and on the Dulas, and in collaboration with Ceredigion County Council at Parc y Llyn in Llanbadarn. EAU operations on all sites supporting water vole are done in accordance with an environmental impact assessment. Surveys and monitoring are also carried out in response to development pressures, operational activities etc.

The Wildlife Trust of South & West Wales (WTWW) is monitoring and managing for water voles on some of their reserves and the Countryside Council for Wales (CCW) manage for water voles at the Cors Caron National Nature Reserve. Agri-environment schemes (e.g Tir Gofal) also provide opportunities to improve habitat for water vole.

Targets

- Improve baseline population and distribution data.
- Maintain the distribution and abundance of existing populations of water vole in Ceredigion
- Expand current populations through the favourable management of watercourses and wetlands.

What you can do to help

If you see any water voles, or would like advice on appropriate habitat management, contact the Environment Agency Wales (01792 325624). Records can also be sent to the mammal recorder tommo@ceredigion.gov.uk. Be prepared with a grid reference – 6 figure if possible.

Further information

- Actions table (Water Vole action plan part 2) for details of local action.
- UK Water Vole Action Plan (available on www.ukbap.org.uk)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on www.ceredigion.gov.uk)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA saraха@ceredigion.gov.uk
Tel 01545 570881

Lead Partner: The Environment Agency Wales, Maes Newydd, Llandarcy, Neath Port Talbot SA10 6JQ. Tel. 01792 325624.

Date of plan & updates: M Jenkins, EAW, 2005 & H Foster, EAW, 2006

Links to other plans: Management for some other species and habitats is compatible with that for water vole e.g otter. Rhos pasture